Hawdd ei Ddeall

Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan
All Wales Medicines Strategy Group

# Prawf alergedd Penisilin

## Gwybodaeth i gleifion



Ysgrifennwyd gan **Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan** a **Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Prawf Alergedd Penisilin - Taflen Gwybodaeth i Gleifion**'.

**Mehefin 2024**

# Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma

Dyma lyfryn hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Rydyn ni wedi egluro beth maen nhw'n ei olygu ar ôl pob gair anodd.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl eich tîm gofal iechyd.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â **Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan**:

**Gwefan:** www.cttcg.gig.cymru

**E-bost:** awttc@wales.nhs.uk

**Ffôn:** 029 218 26900

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**

# Cynnwys

**Beth ydy penisilin?** ....................................................................................4

**Beth ydy alergedd i benisilin?**.........................................................................5

Ydw i'n gallu cael alergedd os oes gan aelod o'r teulu alergedd i benisilin? .......................................................................................7

Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng alergedd a sgîl-effeithiau? ...........7

Pam mae penisilin yn bwysig?...........................................................9

Pa mor gyffredin ydy alergedd i benisilin? .........................................9

**Am y prawf alergedd penisilin** ........................................................... **10**

Pam ydw i'n cael cynnig prawf alergedd?....................................... 10

Beth ydy manteision profion?.......................................................... 11

**Sut mae'r prawf yn cael ei wneud?**...................................................... **12**

Beth ydy'r risgiau a'r sgîl-effeithiau posibl?.................................... 13

Oes angen i mi wneud y prawf?....................................................... 14


**Beth sy'n digwydd ar ôl y prawf?** ......................................................... **15**

**Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth am y canlyniadau?**...................... **17**

# Beth ydy penisilin?




Mae penisilin yn fath o **wrthfiotig**.



Mae **gwrthfiotigau** yn feddyginiaethau sydd yn cael eu defnyddio i drin heintiau sydd yn cael eu hachosi gan rai mathau o facteria.

Mae penisilin yn gweithio'n dda iawn i drin heintiau fel:



- niwmonia - haint ar un neu'r ddau o'r ysgyfaint



- tonsilitis - haint y tonsiliau ar ochrau eich gwddf



- a heintiau croen.

# Beth ydy alergedd i benisilin?



Efallai y bydd gan rai pobl **alergedd** i benisilin neu wrthfiotigau tebyg.

**Alergedd** ydy pan fydd eich corff yn ymateb yn wael i rywbeth. I nifer fach iawn o bobl, mae **alergedd** yn gallu bod yn ddifrifol iawn.



I'r rhan fwyaf o bobl, mae **alergedd** i benisilin yn achosi adwaith croen ysgafn neu frech. Mae hyn yn datblygu'n araf dros nifer o oriau neu ddyddiau.



Mewn nifer fach o bobl, gall **alergedd** fod yn ddifrifol ac achosi **anaffylacsis**.

Mae **anaffylacsis** yn adwaith alergaidd difrifol. Mae'n digwydd yn gyflym iawn - yn aml llai nag awr ar ôl cymryd penisilin, a bob amser o fewn 2 awr.

Mae **anaffylacsis** yn gallu peryglu bywyd.
Mae'n gallu achosi:



- brech sy'n lledaenu'n gyflym



- chwyddo yn y geg, y gwddf neu'r tafod



- anodd anadlu.



Mae'n **anghyffredin iawn** cael **alergedd** difrifol i benisilin.

## Ydw i'n gallu cael alergedd os oes gan aelod o'r teulu alergedd i benisilin?



**Dydy alergedd penisilin ddim yn rhedeg mewn teuluoedd.**



Os oes gennych chi berthynas sydd ag **alergedd** i benisilin, dydy hynny ddim yn meddwl y bydd gennych chi **alergedd** iddo hefyd.

## Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng alergedd a sgîl-effeithiau?



Mae sgîl-effeithiau yn wahanol i adweithiau **alergaidd**.



Sgîl-effeithiau ydy pan fyddwch chi'n cymryd meddyginiaeth sydd yn gallu gwneud i chi deimlo'n sâl. Dydy sgîl-effeithiau ddim yn digwydd i bawb. Maen nhw fel arfer yn ysgafn a dim byd i boeni amdano, a dydyn nhw ddim yn para'n hir.

Mae'r sgîl-effeithiau mwyaf cyffredin o gymryd penisilin yn cynnwys:



- brech ar y croen



- bod yn sâl



- teimlo'n sâl



- dolur rhydd – pŵ rhedegog



Dydy cael sgîl-effeithiau i benisilin ddim yn meddwl bod angen i chi stopio cymryd penisilin. Rydych chi'n gallu cymryd meddyginiaethau i'ch helpu i reoli'r sgîl-effeithiau os oes angen.

## Pam mae penisilin yn bwysig?



Mae penisilin yn gallu gweithio'n well na mathau eraill o wrthfiotigau i drin rhai heintiau.



Mae'n bwysig darganfod os oes gennych chi **alergedd** i benisilin. I wneud yn siŵr eich bod yn cael y gwrthfiotig gorau i chi.

## Pa mor gyffredin ydy alergedd i benisilin?



Mae tua 1 o bob 10 o bobl yn dweud bod ganddyn nhw **alergedd** i benisilin.



Ond mae tystiolaeth yn dangos efallai na fydd gan tua 9 o bob 10 o bobl sy'n dweud bod ganddyn nhw **alergedd** i benisilin **alergedd** iddo. Efallai mai dim ond sgîl-effeithiau maen nhw wedi ei gael o gymryd penisilin.

# Am y prawf alergedd penisilin

## Pam ydw i'n cael cynnig prawf alergedd?

**Fe fyddwch chi yn cael cynnig prawf os:**



- mae eich cofnod iechyd yn dweud bod gennych chi **alergedd** i penisilin



- ac mae'r tîm gofal iechyd wedi asesu ei bod yn ddiogel gwneud y prawf.




Mae gwneud y prawf yn yr ysbyty yn meddwl eu bod nhw yn gallu cadw llygad arnoch chi.



Ac rydych chi'n gallu cael triniaeth os oes angen tra rydych chi'n cael y prawf.


## Beth ydy manteision profion?



Os ydy'r prawf yn dangos nad oes gennych chi **alergedd** i benisilin, fe fyddwn ni yn dweud hynny yn eich cofnod meddygol.



Os nad oes gennych chi alergedd i benisilin, fe fyddwch chi yn gallu cymryd gwrthfiotigau penisilin yn y dyfodol.




Fe fydd gennych chi fwy o opsiynau triniaeth:

- os ydych chi'n cael haint cyffredin, fel haint croen neu frest



- os oes angen i chi gymryd gwrthfiotigau cyn llawdriniaeth.

# Sut mae'r prawf yn cael ei wneud?




Fe fyddwn ni yn gofyn i chi lofnodi f**furflen ganiatâd** cyn y prawf.



Mae **caniatâd** yn meddwl eich bod yn cytuno i wneud y prawf. Ac rydych chi'n deall beth ydy'r risgiau a'r sgîl-effeithiau posibl.



Rydych chi'n gallu gofyn unrhyw gwestiynau.



Fe fyddwch chi yn cael dos o **amoxicillin**. Mae hwn yn fath o antibiotig penisilin.



Fe fydd y tîm gofal iechyd yn cadw llygad gofalus am unrhyw adweithiau **alergaidd**. A sgîl-effeithiau eraill.

# Beth ydy'r risgiau a'r sgîl-effeithiau posibl?



Mae'r sgîl-effeithiau yn gallu bod yn ysgafn. Fel teimlo'n sâl.



Efallai y byddwch chi'n cael adwaith **alergaidd**. Dyna pam rydyn ni'n gwneud y prawf yn yr ysbyty.




Fe fydd tua 1 o bob 20 o bobl yn cael brech sydd yn cosi am ychydig oriau neu am ddiwrnod.



Mae nifer fach iawn o bobl yn gallu cael adwaith difrifol neu **anaffylacsis**.



**Mae anaffylacsis yn brin iawn.**



Dim ond i bobl sydd â risg isel iawn o gael adwaith **alergaidd** y byddwn ni yn cynnig y prawf.



Os ydych chi'n cael adwaith **alergaidd** , fe fyddwn ni yn rhoi triniaeth i chi ar unwaith i'w stopio.

## Oes angen i mi wneud y prawf?



Eich dewis chi ydy cael y prawf ai peidio.



Os byddwch chi yn dewis peidio â chael y prawf, fydd yna ddim newid i'r driniaeth rydych chi'n ei gael yn yr ysbyty.





Rydych chi'n gallu dewis cael y prawf ar unrhyw adeg.

# Beth sy'n digwydd ar ôl y prawf?



Fe fyddwn ni yn siarad gyda chi am y canlyniad.



Fe fyddwch chi yn cael copi o ganlyniadau'r profion.

**Os ydy'r prawf yn dangos nad oes gennych chi adwaith alergaidd i benisilin:**



- Fe fyddwch chi yn gallu cymryd gwrthfiotigau penisilin os ydych chi eu hangen.



- Fe fyddwn ni yn diweddaru eich cofnod meddygol.



- Fe fyddwn ni yn ysgrifennu at eich meddyg teulu i ddweud wrthyn nhw beth ydy canlyniadau'r prawf.

**Os ydy’r prawf yn dangos bod gennych chi alergedd i benisilin:**




- Fe fydd eich cofnod meddygol yn dweud bod gennych chi **alergedd** i benisilin.



- Ddylech chi ddim cymryd gwrthfiotigau penisilin yn y dyfodol.



- Fe fyddwn ni yn dweud wrth eich meddyg teulu am ganlyniad eich prawf.




- Fe fyddwch chi yn derbyn **cerdyn alergedd**. Fe ddylech chi bob amser gadw eich cerdyn gyda chi.



Os nad oedd y canlyniadau yn glir, efallai y byddwch chi’n cael eich cyfeirio at arbenigwr i gael asesiad pellach.

# Beth sy’n digwydd i’r wybodaeth am y canlyniadau?



Mae hwn yn wasanaeth newydd. Mae’n bwysig ein bod yn casglu gwybodaeth am ganlyniadau’r profion rydyn ni’n eu gwneud.



Fe fydd hyn yn helpu’r tîm gofal iechyd i weld pa mor dda mae ein gwasanaeth profi yn gweithio.



Fe fyddwn ni yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn breifat. Fe fyddwn ni yn dileu eich gwybodaeth bersonol o’r canlyniadau rydyn ni yn eu casglu.



**Os ydych chi’n cael brech neu adwaith arall ar ôl gadael yr ysbyty, cysylltwch â’ch tîm gofal iechyd.**

**Ffôn:**